# Agenda – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Mawrth 2019

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

09:00

## 2 Papur(au) i'w nodi

09:00 (Tudalennau 1 - 6)

**2.1 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Gwaith craffu ar Fil Awtistiaeth (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 – ymateb Llywodraeth Cymru**

(Tudalennau 7 - 12)

**2.2 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Cynllun gwaith polisi treth Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019**

(Tudalennau 13 - 18)

**2.3 Llythyr gan Swyddfa Archwilio Cymru: Cynllun pensiwn y gwasanaeth sifil – cynyddu cyfraniadau cyflogwyr yn 2019**

(Tudalennau 19 - 20)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

09:00

## 4 Y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) – Sesiwn friffio technegol

09:00–10:00 (Tudalennau 21 - 23)

Swyddogion y Comisiwn

- Anna Daniel, Pennaeth y Gwasanaeth Trawsnewid Strategol
- Matthew Richards, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
- Tom Jackson, Clerc/Rheolwr y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), y Gwasanaeth Trawsnewid Strategol.

Swyddogion Llywodraeth Cymru

- Angharad Thomas Richards, Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol
- Sian Williams, Democratiaeth, Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol.

Papur 1 – Y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) – Sesiwn friffio technegol

## 5 Papur cwmpasu: Cynigion y gyllideb flynyddol gan gyrff a gyllidir yn uniongyrchol

10:00-10:30 (Tudalennau 24 - 39)

Papur 2 – Papur cwmpasu

Papur 3 – Llythyr gan Suzy Davies, Comisiynydd y Cynulliad – 31 Ionawr 2019

Papur 4 – Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – 4 Chwefror 2019

Papur 5 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd – 11 Chwefror 2019

Papur 6 – Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru – 22 Chwefror 2019

## 6 Gwaith craffu cydamserol ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20: Trafod yr adroddiad drafft

10:30-10:50 (Tudalennau 40 - 65)

Papur 7 – Gwaith craffu cydamserol ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20: Adroddiad drafft (Saesneg yn unig)

Papur 8 – Llythyr gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – 21 Chwefror (Saesneg yn unig)

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 14 Chwefror 2019

Amser: 09.01 - 10.20

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5316

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Alun Davies AC<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Nick Ramsay AC |
| Tystion: | Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd<br>Sharon Bounds, Llywodraeth Cymru<br>Matthew Denham-Jones, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Ryan Bishop (Dirprwy Glerc)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AC.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

### 2.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Cyllideb Ddrafft 2019-20 - Ymateb Llywodraeth Cymru

### 2.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig at Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth: Cyllideb Ddrafft 2019-20 - Ymateb Llywodraeth Cymru

## 3 Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd; Matthew Denham-Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr Rheolau Cyllid; a Sharon Bounds, Pennaeth Rheoli a Chofnodi Cyllid.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn a'r cyfarfodydd ar 20 Chwefror a 7 Mawrth 2019.

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Ail gyllideb atodol 2018-19 - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Memorandwm Esboniadol

6.1 Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch ei ail gyllideb atodol ar gyfer 2018-19: Memorandwm Esboniadol.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mercher, 20 Chwefror 2019

Amser: 09.03 - 09.46

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5317

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Alun Davies AC<br>Mike Hedges AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Nick Ramsay AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Ryan Bishop (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Neil Hamilton AC.

## 2 Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19: Trafod yr adroddiad drafft

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad â mân newidiadau.

## 3 Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru): trafod y gwelliannau a gynigir yng Nghyfnod 2

3.1 Trafododd a chytunodd y Pwyllgor ar:

- y Memorandwm Esboniadol yn dilyn Cyfnod 2
- y gwelliannau arfaethedig y bydd yn eu cyflwyno i'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) yng Nghyfnod 3.

## 4 Papur cwmpasu: ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru

4.1 Trafododd y Pwyllgor y papur cwmpasu.

## 5 Papur cwmpasu: trafod cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

5.1 Trafododd y Pwyllgor y papur cwmpasu.

## 6 Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): dull o gynnal y gwaith craffu

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ei ddull.

## 7 Trafod y flaenraglen waith

7.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 7 Mawrth 2019

Amser: 09.32 - 10.37

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5318

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Mike Hedges AC<br>Nick Ramsay AC |
| Tystion: | Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Helen Goddard, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Isobel Garner, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Stephen Lisle, Swyddfa Archwilio Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Ryan Bishop (Dirprwy Glerc)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Neil Hamilton AC, Alun Davies AC a Rhianon Passmore AC.

## 2 Swyddfa Archwilio Cymru - nodyn briffio technegol ar ddadansoddeg data

2.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn briffio technegol ar y defnydd o ddadansoddeg data

## 3 Bil Deddfwriaeth - trafod yr adroddiad drafft

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad.

## 4 Cylch gorchwyl cyllid cyfalaf wedi'i ddiweddaru

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl wedi'i ddiweddaru ac i fwrw ymlaen â'r ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru.

**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-L/VG/0005/19

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1NA

18 Chwefror 2019

Annwyl Gadeiryddion,

Rwy'n ysgrifennu i ddiolch i bob un o'ch Pwyllgorau am eu gwaith craffu yn ystod cyfnod un Bil Awtistiaeth (Cymru), ac i ymateb i argymhellion adroddiad y pwyllgorau (Atodiad A) a gyfeiriwyd at Lywodraeth Cymru. Gan nad oedd y Bil yn llwyddiannus yn y bleidlais yn dilyn y Ddadl ar yr Egwyddorion Cyffredinol ar 16 Ionawr, mae fy ymateb yn adlewyrchu'r penderfyniad hwn gan nad wyf wedi gwneud sylwadau ar argymhellion sy'n ymwneud â chynnydd posibl y Bil.

Mae'n bleser gennyf allu cytuno ar yr argymhellion sy'n weddill, ond mewn rhai achosion rwy'n darparu eglurhad pellach ynghylch yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud.

Rwyf eisiau sicrhau pob aelod o'n hymrwymiad cadarn i wella gwasanaethau awtistiaeth. Cyflawnir hyn drwy ddarparu'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASA), datblygu'r Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth a thrwy ymgorffori'r gwasanaethau a'r diwygiadau a gyflwynwyd gennym, gan gynnwys manteisio i'r eithaf ar effaith yr adnoddau ariannol ychwanegol sylweddol a ddyrannwyd. Byddaf yn cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig yn fuan yn cadarnhau bwriad Llywodraeth Cymru i gyflymu gwelliannau i wasanaethau awtistiaeth ac adolygu'r canlyniadau a gyflawnir.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

***Argymhelliad 1.*** *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i'r Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol i wella cysondeb y gwasanaethau ar draws y rhanbarthau, er mwyn sicrhau dull gweithredu cenedlaethol, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn chwe mis. Rydym hefyd yn argymell ei bod yn cynhyrchu gwybodaeth gyhoeddus glir i egluro'r hyn y gall pobl ei ddisgwyl o'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig*

Cytunwyd Cefnogir y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS) gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol sy'n rhan o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r Tîm yn hwyluso grŵp Penaethiaid y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig i hyrwyddo cydweithio. Mae gwaith diweddar wedi cynnwys adolygu a diweddaru'r fanyleb ar gyfer y gwasanaeth, a chytuno ar drefniadau monitro ar draws y gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Rwy'n disgwyl i'r fanyleb genedlaethol a'r trefniadau monitro diwygiedig fod ar gael erbyn mis Ebrill. Mae gwybodaeth am y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ac adnoddau awtistiaeth ar gael ar wefan ASDinfowales www.asdinfowales.co.uk. Bydd pob gwasanaeth rhanbarthol hefyd yn cynhyrchu eu deunyddiau cyfathrebu eu hunain.

Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig wedi'i ddylunio i bontio bwlch a nodwyd mewn gwasanaethau yn hytrach na disodli cymorth sy'n bodoli eisoes. Bydd y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig weithiau yn atgyfeirio unigolion at wasanaethau prif ffrwd eraill sydd mewn sefyllfa well i ddarparu cymorth arbenigol.

Rydym yn gweithio i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau mewn perthynas ag awtistiaeth ar draws gwasanaethau'r sector cyhoeddus drwy'r adnoddau a'r hyfforddiant a ddarperir drwy'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol ac yn lleol gan dimau'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. Ceir enghreifftiau o'r adnoddau hyn ar wefan ASDinfowales.

Gan fod pob Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig wedi gweddnewid gwasanaethau awtistiaeth presennol yn eu rhanbarthau, bydd rhai gwahaniaethau o ran sut mae gwasanaethau lleol yn cael eu darparu, er mwyn ystyried amrywiadau fel y gymysgedd o ran staff proffesiynol, daearyddiaeth leol a'r gwasanaethau sydd eu hangen fwyaf mewn unrhyw ardal. Ein bwriad yw cyhoeddi canfyddiadau'r gwerthusiad annibynnol o'r broses o weithredu'r gwasanaeth erbyn diwedd mis Chwefror, a byddwn yn ystyried yn ofalus yr argymhellion a wnaed ochr yn ochr â'r rhai a wnaed gan y pwyllgorau craffu. Byddwn yn nodi cynlluniau pellach ar gyfer gwerthuso a monitro ein diwygiadau fel rhan o'r adroddiad blynyddol ar gyflawni'r strategaeth ASA ym mis Mehefin 2019. Byddwn yn anfon yr Adroddiad Blynyddol i bob pwyllgor.

***Argymhelliad 2.*** *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynyddu'r ddarpariaeth o wasanaethau cymorth ASA uniongyrchol ledled Cymru (y tu hwnt i'r gwasanaethau a gynigir ar hyn o bryd gan y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig), ac yn sicrhau bod gwasanaethau hanfodol y trydydd sector yn derbyn cyllid cynaliadwy er mwyn gallu parhau â'u gwasanaethau cymorth arbenigol a'u hehangu, er mwyn darparu cymorth rheng flaen uniongyrchol a llenwi'r bylchau na all y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig eu llenwi.*

Cytunwyd  Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn wasanaeth ychwanegol a ddyluniwyd i gynyddu capasiti. Dylai awdurdodau lleol a byrddau iechyd hefyd sicrhau bod gwasanaethau awtistiaeth cyfredol yn gweithio ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig.  O 2015/16 ymlaen rhoddodd Llywodraeth Cymru grant seilwaith Awtistiaeth o £40k i bob awdurdod lleol o dan y Grant Cymorth Refeniw.  Mae'r cyllid hwn ar gael i awdurdodau lleol gefnogi gwasanaethau awtistiaeth a allai gynnwys sicrhau cymorth gan y trydydd sector. Hefyd, mae cynllun grantiau trydydd sector Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy Llywodraeth Leol wedi'u dylunio'n benodol i ddarparu cyllid i grwpiau sector gwirfoddol cenedlaethol er mwyn darparu gwasanaethau cymorth cymunedol.  Bydd y grant nesaf ar gael o fis Ebrill 2020 ymlaen ac rydym yn annog grwpiau yn y sector gwirfoddol, gan gynnwys y rhai sy'n darparu gwasanaethau cymorth arbenigol i bobl awtistig, i wneud cais am gyllid drwy'r broses gystadleuol gwneud cais am grant a gaiff ei hysbysebu yn ddiweddarach yn 2019.

***Argymhelliad 3.*** *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau ar fyrder i fynd i'r afael â'r angen clir am gymorth cyflogaeth ar gyfer oedolion ag ASA. Rhaid cael llwybr clir i oedolion allu cael mynediad i gymorth i'w cynorthwyo i gael swydd. Dylai Gyrfa Cymru chwarae rhan fwy yn hyn o beth ond mae achos hefyd dros ddarparu cyllid ychwanegol i asiantaethau'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau cymorth cyflogaeth arbenigol.*

Cytunwyd  Rydym yn gweithio i roi cymorth i oedolion awtistig, pobl a allai wynebu anawsterau o ran cael mynediad i gyflogaeth a chadw swydd, y bydd llawer ohonynt yn meddu ar amrywiaeth eang o sgiliau a phrofiad.

Mae gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol a'r arweinwyr awtistiaeth lleol berthynas waith gref â'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn cynorthwyo eu staff i gefnogi pobl awtistig sy'n derbyn budd-daliadau diweithdra, nad ydynt wedi'u datganoli.

Mae ein rhaglen Gweithio gydag Awtistiaeth a ddarperir drwy'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol ASA yn cefnogi Gyrfa Cymru a Chanolfannau Byd Gwaith i ddarparu cyngor a chymorth i unigolion sydd ag awtistiaeth sy'n ceisio cymorth cyflogaeth.  Erbyn diwedd 2018, roedd 30,000 o unigolion wedi cwblhau ein cynllun ymwybyddiaeth o ASA (gydag 8,006 yn ei gwblhau yn ystod 2018) ac roedd 1,210 wedi cwblhau'r cynllun Gweithio gydag Awtistiaeth.  Cwblhawyd y cynllun Adnoddau Dynol, Bod yn Fodlon Gweithio gydag Awtistiaeth, gan 263 o bobl.  Mae'r cynllun Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth bellach yn cael ei gyflwyno i staff Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â phrosiect 'Ar y Blaen Rownd 2' y Gronfa Loteri Fawr, sy'n rhaglen pum mlynedd sydd â'r nod o gefnogi pobl ifanc sydd ag anableddau dysgu neu awtistiaeth i fyd gwaith.  Darperir y prosiect hwn gan gonsortiwm y trydydd sector ac mae yn ei drydedd flwyddyn. Hyd at fis Tachwedd 2018, atgyfeiriwyd 200 o bobl ifanc awtistig i'r gwasanaeth, gyda 170 yn derbyn proffil galwedigaethol, 160 yn ymgymryd â lleoliadau ac mae 33 o bobl ifanc awtistig bellach mewn cyflogaeth gynaliadwy.

Hefyd yn 2018, cyhoeddwyd cynllun cyflogadwyedd Traws-lywodraethol a nododd ein gweledigaeth er mwyn gwneud Cymru yn economi cyflogaeth lawn, uwch-dechnoleg, cyflog uchel. Wrth wraidd yr uchelgais hon, rydym yn ymrwymedig i helpu pawb i gyflawni eu llawn botensial drwy gyflogaeth ystyrlon, waeth beth fo'u gallu, problemau iechyd, cefndir, cenedl neu ethnigrwydd. Rydym yn cefnogi pobl nad ydynt yn gweithio, gyda phwyslais arbennig ar

y rhai sy’n anweithgar yn economaidd ac yn llai tebygol o fod mewn cysylltiad â chymorth cyflogaeth prif ffrwd. Bydd hyn yn cynnwys rhoi cymorth i bobl awtistig a byddwn yn archwilio lle y gellid gwneud mwy i ddarparu’r cymorth wedi’i deilwra sydd ei angen arnynt.

Mae’r Cynllun Cyflogadwyedd yn cymryd camau mewn pedair thema benodol; gan ddarparu dull gweithredu wedi’i deilwra’n benodol i’r unigolyn o ran darparu cymorth cyflogaeth, gan bwysleisio cyfrifoldeb cyflogwyr i gefnogi staff, gan gau’r bwlch sgiliau a pharatoi ar gyfer marchnad lafur sy’n newid yn sylweddol. Mae cymorth wedi’i deilwra’n benodol i’r unigolyn yn rhoi ymreolaeth a hyblygrwydd i gynghorwyr ymdrin ag anghenion, cryfderau ac uchelgeisiau’r person sy’n paratoi at waith.

***Argymhelliad 4.*** *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diwygio’r Codau Ymarfer ar gyfer Rhannau 3 (asesu anghenion unigolion) a 4 (diwallu anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i gynnwys darpariaethau penodol ar ASA*

<u>Cytunwyd</u> Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar ein cynigion ar gyfer Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth ar 30 Tachwedd, sydd ar agor tan 1 Mawrth 2019. Gwneir y Cod hwn o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf GIG (Cymru) 2006. Diben y Cod fydd sicrhau bod gwasanaethau statudol a phobl awtistig yn deall eu hawliau a’u cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth a chodau ymarfer cyfredol sy’n seiliedig ar anghenion. Bydd y Cod yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu haddasu i ddiwallu anghenion penodol pobl awtistig.

***Argymhelliad 5.*** *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i Fyrddau Iechyd ac awdurdodau lleol i sicrhau bod nifer o lwybrau atgyfeirio priodol a chlir ar gael i bawb, gan gynnwys llwybr gofal sylfaenol penodol, a bod y rhwystrau sy’n bodoli rhwng y sectorau iechyd, gofal ac addysg yn cael eu rhoi i’r neilltu, er enghraifft er mwyn galluogi meddygon teulu i atgyfeirio plant i gael cymorth addysgol*

<u>Cytunwyd</u> Drwy waith y Rhaglen Gyda’r Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, y ffrwd waith niwroddatblygiadol, mae llwybrau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar gael bellach er mwyn cael mynediad i wasanaethau asesu plant. Mae’r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig hefyd yn datblygu llwybrau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau oedolion fel rhan o’r broses o wella gwasanaethau.

Mae’r ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth yn cyfeirio’n benodol at ddyletswyddau mewn perthynas â darparu llwybrau gofal a chymorth, ac mae hyn yn cynnwys llwybrau diagnostig ar gyfer asesu a diagnosis, i gyfateb â llwybrau gofal cymdeithasol. Mae cynlluniau ar y gweill hefyd i wneud llwybrau gofal sylfaenol yn ofynnol, yn arbennig i feddygon teulu ac i sicrhau bod llwybrau priodol ar gyfer pobl awtistig sydd â chyflyrau eraill sy’n cyd-fodoli i gael mynediad at gymorth sy’n briodol ar gyfer eu hanghenion.

***Argymhelliad 6.*** *Rydym yn argymell y dylai fod yn orfodol i bob aelod o staff mewn ysgolion (yn enwedig athrawon a chynorthwywyr addysg) gael hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ASA yn ystod eu hyfforddiant cychwynnol athrawon ac fel rhan o’u datblygiad proffesiynol parhaus*

Cytunwyd  Rydym ar hyn o bryd yn diwygio'r ffordd y caiff addysg gychwynnol i athrawon (AGA) ei darparu yng Nghymru. Mae'r diwygiadau i AGA yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaethau AGA a achredwyd ddylunio a darparu cyrsiau sy'n cefnogi pedwar diben y cwricwlwm newydd i Gymru ac yn ymdrin â'r chwe maes dysgu a phrofiad er mwyn datblygu athrawon y dyfodol i ddiwallu anghenion pob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr ag ASA. At hynny, un o elfennau allweddol ein hagenda ddiwygio gyffredinol yw cyflwyno dull gweithredu mwy cadarn o achredu rhaglenni AGA, ac y dylai'r rhain gael eu llywodraethu gan Gyngor y Gweithlu Addysg gan alluogi'r proffesiwn i bennu ei ofynion mynediad ei hun. Bydd y rhaglenni newydd hyn ar gael o fis Medi 2019.

Bydd Partneriaethau AGA newydd yn datblygu dulliau gweithredu i gynorthwyo darpar athrawon i ddeall pwysigrwydd arferion a gaiff eu llywio gan ymchwil, er mwyn sicrhau bod athrawon yn ymwybodol o'r ymchwil ddiweddaraf, fel ymchwil ar ASA, er mwyn i hyn lywio eu harferion addysgu yn barhaol yn ystod eu bywydau gwaith. Yn ogystal, mae'n ofynnol i bob athro yng Nghymru fod yn ymwybodol o les a datblygiad personol, emosiynol a chymdeithasol pob dysgwr.

Mae'r ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth yn cynnwys adran sy'n ymroddedig i wella gwybodaeth a sgiliau staff.  Disgwylir i gyrff statudol ymgymryd â dadansoddiad o anghenion hyfforddi ym maes awtistiaeth ar gyfer eu staff, wedi'i deilwra ar gyfer eu hanghenion proffesiynol.  Mewn perthynas ag ysgolion, mae'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol wedi datblygu rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth gyda'r nod o ddatblygu gwybodaeth ymhlith staff addysgu a dysgwyr, ac mae pecynnau bellach ar gael ar gyfer y blynyddoedd cynnar, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac addysg bellach. Mae ceisiadau ar gyfer y gwobrau Dysgu gydag Awtistiaeth bellach yn cael eu derbyn yn ddyddiol. Mae ein llwyddiant hyd yma fel a ganlyn.

- Lansiwyd mewn Ysgolion Cynradd ym mis Mawrth 2016: Mae bron 4500 o staff addysgu wedi cwblhau'r cynllun, a bron 5,000 o gynorthwywyr cymorth dysgu.  Mae gennym bellach dros 26,500 o archarwyr awtistiaeth, gydag 11,640 ohonynt wedi cael eu creu eleni.  Mae 11 o ysgolion wedi derbyn y dystysgrif wobrwyo ysgol gyfan Dysgu gydag Awtistiaeth (mwy na 40 o ysgolion ledled Cymru yn ystod 2018).

- Blynyddoedd Cynnar: cwblhaodd bron 1000 o aelodau staff y cynllun.  Dyfarnwyd tystysgrif i 40 o leoliadau. (35 yn fwy ers mis Ionawr)

- Ysgolion Uwchradd:  mae mwy na 2000 o athrawon wedi cwblhau'r cynllun ac mae 9161 o ddisgyblion wedi llofnodi'r addewid disgyblion (sy'n golygu bod dros 8,700 o ddisgyblion wedi ymrwymo i'r addewid ers mis Ionawr 2018).  Gwnaeth 8 ysgol gais a llwyddo i dderbyn eu gwobrau.

***Argymhelliad 7.*** *Rydym yn argymell bod y broses o weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn cael ei monitro'n agos er mwyn asesu a yw'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ASA yr ystyrir eu bod yn gweithredu ar lefel uchel ac nad oes ganddynt anabledd dysgu ar y cyd.*

Cytunwyd  O dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Y Ddeddf ADY"), bydd gan yr holl blant a phobl ifanc y nodwyd bod ganddynt angen dysgu ychwanegol (ADY), a allai gynnwys y rhai sydd ag ASA yr ystyrir eu bod yn

gweithredu ar lefel uchel, yr hawl i gael cynllun datblygu unigol a hawliau ac amddiffyniadau cysylltiedig o dan y Ddeddf honno. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynnal adolygiad ôl-weithredu o'r Ddeddf ADY bum mlynedd ar ôl iddi ddechrau. Bydd hyn yn asesu i ba raddau y mae'r Ddeddf ADY wedi cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc sydd ag ADY yng Nghymru.

***Argymhelliad 9.*** *Rydym yn argymell y dylai Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru gynnwys darpariaeth i sicrhau y gall unigolion gael mynediad at wybodaeth a chymorth priodol yn yr iaith o'u dewis*

<u>Cytunwyd</u> Mae'r ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer yn cyfeirio'n benodol at argaeledd gwasanaethau sy'n diwallu Safonau'r Gymraeg a lle y bo'n ofynnol, yn darparu addasiadau rhesymol i sicrhau bod pobl awtistig sydd â nodweddion gwarchodedig yn cael mynediad cyfartal i wasanaethau a chymorth. Rydym hefyd wedi cyhoeddi fersiwn Hawdd ei Deall o'r ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer y Cod.

## <u>Y Pwyllgor Cyllid</u>

**Argymhelliad 1.** *Yn y dyfodol, pe bai'r Cynulliad yn pleidleisio o blaid y cynnig a gyflwynwyd yn unol â Rheol Sefydlog 26.91, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddarparu gwybodaeth i sicrhau bod y costau mewn memorandwm esboniadol mor gynhwysfawr a manwl â phosibl, gan ddefnyddio'r wybodaeth am gost sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.*

<u>Cytunwyd</u>. Cyflwynwyd llythyr gan y Prif Weinidog, yn ymateb yn uniongyrchol i bryderon y Pwyllgor ar 21 Rhagfyr 2018. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth a gedwir gennym, ond ni fyddwn yn ymgymryd ag unrhyw waith casglu data neu ddadansoddi data pwrpasol ac ati, gan mai cyfrifoldeb yr Aelod Cyfrifol yw hynny.

**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MAP/RE/0498/19

Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru Bae
Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

27 Chwefror 2019

Annwyl Llŷr,

Mae'n bleser gennyf amgáu Cynllun gwaith polisi trethi Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019. Mae'r cynllun yn amlinellu'r prif themâu ac agweddau ar bolisi trethi y byddaf yn eu hystyried yn ystod y flwyddyn hon.

Yn yr hydref, byddaf yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r hyn y byddwn wedi'i ddysgu, gan dynnu allan y prif gasgliadau a goblygiadau ar gyfer polisi trethi Cymru.

Byddaf yn chwilio am gyfleoedd i'r Cynulliad Cenedlaethol gynnal dadleuon ar rai o'r agweddau mwyaf strategol ar y gwaith hwn, ac rwy'n gobeithio trafod canfyddiadau'r cynllun gwaith â'r Pwyllgor Cyllid yn yr hydref.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun gwaith polisi trethi 2019

## Rhagair

Mae polisi trethi Llywodraeth Cymru yn cael ei ddatblygu yn unol â'r egwyddorion a amlinellwyd yn ein *Fframwaith Polisi Trethi*, gan gynnwys ein nod o wneud hynny drwy ymgysylltu a chydweithio.

Mae llwyddiant y gwaith o gyflwyno'r dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi, a sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru, yn ddyledus iawn i gyfraniadau gwerthfawr gan amrediad eang o unigolion a sefydliadau sy'n rhanddeiliaid, gan gynnwys busnesau, gweithwyr proffesiynol ym maes trethi, academyddion a phobl eraill sydd â phrofiad ac arbenigedd.

Wrth i ni geisio datblygu ein hagwedd at drethiant yng Nghymru – er enghraifft ystyried ffyrdd eraill o wella gweinyddiaeth trethi, cryfhau'r cysylltiadau rhwng trethi a meysydd polisi eraill ymhellach, a dal i sicrhau bod ein trethi'n parhau'n deg tra'n darparu'r cyllid angenrheidiol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus – mae ymgysylltu cryf yn parhau'n hanfodol.

Mae cyhoeddi ein cynllun gwaith polisi trethi blynyddol yn rhan bwysig o'r broses gyfathrebu – drwy edrych ar yr hyn rydym wedi'i ddysgu hyd yn hyn, mae'n nodi'r prif feysydd sydd o ddiddordeb i Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn wahoddiad agored i unrhyw un sy'n dymuno cyfrannu at ein ffordd o feddwl, a helpu i ddylanwadu ar bolisi trethi Cymru.

Os hoffech gyfrannu at unrhyw agwedd ar y cynllun gwaith, cysylltwch â'm tîm yn Nhrysorlys Cymru.

Byddwn yn falch iawn o glywed eich barn.





**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**

# Cyflwyniad

Mae'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu hariannu yn newid, ac mae cyfraniad refeniw a godir drwy drethi Cymru yn dod yn gynyddol bwysig. Cyflwynwyd y trethi Cymreig modern cyntaf – treth trafodiadau tir (TTT) a threth gwarediadau tirlenwi (TGT) – ar 1 Ebrill 2018, yn cael eu casglu a'u rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC), ac ar 6 Ebrill 2019 bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) yn dechrau casglu cyfraddau treth incwm Cymru. Ynghyd â'r trethi lleol sydd wedi'u datblygu er 1999 – y dreth gyngor ac ardrethi annomestig – bydd y rhain yn codi tua £5 biliwn i wasanaethau cyhoeddus Cymru, gan gryfhau'r cysylltiad rhwng datblygu economaidd yng Nghymru a'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi ein gwasanaethau cyhoeddus hanfodol[1].

Ym Mehefin 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei *Fframwaith Polisi Trethi*, sy'n nodi sut rydym yn ceisio datblygu dull strategol, integredig ac effeithiol o ymdrin â threthi yng Nghymru, ac yn dangos cyfeiriad hirdymor clir, sy'n seiliedig ar yr egwyddorion a ganlyn. Dylai trethi Cymru:

- **Godi refeniw i gyllido gwasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl.**
- **Cyflawni amcanion polisi presennol Llywodraeth Cymru, yn enwedig cefnogi twf a swyddi.**
- **Bod yn glir, yn sefydlog ac yn syml.**
- **Cael eu datblygu trwy gydweithredu ac ymwneud.**
- **Cyfrannu'n uniongyrchol at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru fwy cyfartal.**

Mae'r gwaith hwn yn cysylltu â'r fframwaith ar gyfer trethu lleol, y nodir ein huchelgeisiau ar ei gyfer yn rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru[2].

Mae ein polisi'n seiliedig ar raglen o ymchwiliadau, a gyhoeddir fel cynlluniau gwaith polisi trethi blynyddol. Mae'r meysydd o ddiddordeb yn cynnwys edrych sut y gall trethi Cymru integreiddio'n effeithiol â meysydd polisi eraill i godi refeniw yn deg, y cyfleoedd ar gyfer trethi newydd a fyddai'n helpu i gefnogi uchelgeisiau polisi ehangach, ac adolygu'r system drethi ledled Cymru er mwyn canfod meysydd y gellid eu gwella. Ystyriaeth ehangach arall yw sut y gallwn annog sylfaen drethu gryfach yng Nghymru i gefnogi gwariant cyhoeddus. Mae'r hyn rydym wedi'i ddysgu hyd yn hyn yn cael ei grynhoi yn adroddiadau polisi trethi 2017 a 2018.

Dyma'r trydydd cynllun gwaith polisi trethi blynyddol, ac mae'n ymdrin â'r bwriadau ar gyfer blwyddyn galendr 2019. Bydd rhai casgliadau yn arwain at oblygiadau uniongyrchol a di-oed i gyllideb Llywodraeth Cymru, tra mae eraill yn gasgliadau mwy hirdymor ac yn debygol o barhau mewn cynlluniau gwaith yn y dyfodol. Unwaith eto, bydd adroddiad yn crynhoi'r prif ganfyddiadau yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft yn yr hydref.

1 Fel y nodwyd yn strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru *Ffyniant i Bawb* (tudalen 5).
2 Mae *Symud Cymru Ymlaen* yn cynnwys ymrwymiadau penodol sy'n ymwneud â threthi lleol a chyllido llywodraeth leol (tudalennau 4 ac 13).

## A. Datblygu polisi trethi sy'n codi refeniw i gyllido gwasanaethau cyhoeddus mor deg ag sy'n bosibl, yn gyson â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru

Yn 2017, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gomisiynu ymchwil i wytnwch sylfaen drethu Cymru, yng nghyd-destun datganoli pwerau trethi. Cyhoeddodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ei dadansoddiad ym Mai 2018, gan dynnu sylw at y risgiau hirdymor i sylfaen drethu Cymru ac amlinellu rhai meysydd y gellid eu hystyried. Bu Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r awduron i adeiladu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r heriau hyn yn fewnol ac yn allanol yn ystod 2018.

1. Byddwn yn datblygu ac yn rhannu ein cynigion i adeiladu sylfaen drethu Cymru yn y tymor canolig a'r tymor hir.

2. Byddwn yn datblygu fframwaith polisi ehangach i ystyried trethiant tir ac eiddo amhreswyl, ar sail tystiolaeth sydd wedi'i chyhoeddi'n barod (gan gynnwys adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru), yn ymchwilio i drethi lleol amgen, ac yn sicrhau bod hyn yn gydnaws â'r cynnydd rydym yn ei wneud er mwyn datganoli pwerau dros dreth ar dir gwag i Gymru.

3. Byddwn yn dal i ystyried y dystiolaeth ar drethiant eiddo preswyl, gan gynnwys eiddo nad ydynt yn brif eiddo preswyl. Bydd ACC yn cyhoeddi data'r flwyddyn gyntaf ar gyfraddau TTT uwch mewn gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol, a byddwn yn dal i fonitro effeithiolrwydd deddfwriaeth yn y maes hwn (y naill a'r llall o gynllun gwaith 2017).

4. Wedi i gyfraddau treth incwm Cymru fynd yn fyw ar 6 Ebrill 2019, byddwn yn parhau i weithio gyda CThEM er mwyn sicrhau rheolaeth effeithiol. Byddwn yn ceisio hybu tegwch mewn polisi trethi ar gyfer holl drethi Cymru, gan barhau â'r gwaith ar yr opsiynau cyllido ar gyfer gofal cymdeithasol yn y dyfodol, gweithredu ein hagenda trethiant lleol, a hybu dull blaengar sydd wedi'i ystyried yn ofalus ar gyfer trethi personol.

5. Byddwn yn dal i sicrhau bod y gwaith o ddatblygu polisi trethi yn gydnaws â meysydd polisi eraill. Byddwn yn parhau i ddadlau dros ddatganoli'r doll teithwyr awyr i Gymru; yn bwrw ymlaen â'r dreth dwristiaeth a'r agenda trethiant lleol; ac yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar blastigau untro a threthi amgylcheddol eraill.

## B. Creu agwedd fwy effeithiol a chydgysylltiedig at drethi ar draws y trethi Cymreig presennol ac ar draws y dirwedd drethi ehangach

1. Rydym wedi gwneud nifer o welliannau i system drethi Cymru yn 2018, gan gynnwys addasiadau i'r ddeddfwriaeth, gwelliannau i ganllawiau ACC a gwasanaethau fel y ffurflen TTT. Byddwn yn dal i fonitro a yw trethi Cymru'n gweithio fel y bwriadwyd iddynt weithio, ac yn gwneud newidiadau fel y bo'n briodol.

2. Byddwn yn adeiladu'r sail dystiolaeth i ystyried a allai system drethi Cymru fod yn fwy effeithlon a chymesur, a chyflawni mwy i fusnesau, cymunedau, dinasyddion, sefydliadau'r sector cyhoeddus ehangach a threthdalwyr yng Nghymru. Bydd y gwaith hwn yn ceisio edrych ar draws trethi Cymru a bydd yn cynnwys:

   i. Cyhoeddi amcanion ar gyfer gweinyddu trethi lleol.
   ii. Ymgysylltu â busnesau, trethdalwyr a grwpiau cynrychioladol ledled Cymru, gan gyfathrebu newidiadau i'r system drethi a fydd yn cael effaith uniongyrchol ar fusnesau.
   iii. Ystyried y ddadl dros fabwysiadu agwedd fwy strategol a chydgysylltiedig at flaenoriaethau gweinyddu trethi yn y tymor canolig.

3. Byddwn yn ystyried opsiynau i ddatblygu adnoddau gwybodaeth, gan gynnwys rhannu a dadansoddi data, i gryfhau'r sail dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau polisi trethi a gwella'r gwaith o weinyddu trethi yng Nghymru. Bydd ACC yn ymhelaethu ar ei rôl a'i flaenoriaethau yn y cyswllt hwn yng nghynllun corfforaethol 2019-22.

4. Byddwn yn sefydlu mecanweithiau llywodraethu y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth y DU ar gyfer y gwaith parhaus o weinyddu cyfraddau treth incwm Cymru ar ôl iddynt ddod i rym yn Ebrill 2019, ac yn fwyaf arbennig, cyhoeddi cytundeb lefel gwasanaeth CThEM a sicrhau ymrwymiad iddo.

## C. Ymgysylltu, cyfathrebu a meithrin gallu

1. Rydym yn ymdrechu i sicrhau agwedd sy'n seiliedig ar arferion gorau tuag at ein pwerau trethi, er enghraifft ein proses dryloyw ac allblyg o lunio polisi trethi. Yn 2019, byddwn yn adeiladu ar hyn er mwyn gwella'r ffordd y mae trethi Cymru'n cael eu cynllunio a'u gweithredu, gan integreiddio polisïau a dulliau gweithredu, a'r cyswllt rhwng polisi trethi a pholisïau eraill, i'r graddau y mae hynny'n bosibl. Mae ACC mewn sefyllfa dda i gefnogi hyn, a bydd yn ymhelaethu ar ei rôl yn hyn o beth yng nghynllun corfforaethol 2019-22.

2. Byddwn yn datblygu'r gynulleidfa sylfaenol ar gyfer ymgysylltu ynglŷn â materion trethiant, gan hybu dadl gadarnhaol dros drethiant drwy ddangos y cysylltiad rhwng trethi a gwariant ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

   i. Ymgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid er mwyn cynyddu dealltwriaeth o'n hagwedd at drethiant a'n galluogi i ddatblygu polisi trethi drwy gydweithredu a chynnwys.

   ii. Datblygu naratif yn ymwneud â threthi a gwariant sy'n cael ei gefnogi gan randdeiliaid a dinasyddion yn ehangach, ac y gellir ei ddefnyddio i ddatblygu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o drethi Cymru ledled Cymru.

3. Byddwn yn datblygu cynllun hirdymor i adeiladu capasiti a gallu yng Nghymru yng nghyswllt polisi trethi a gweinyddu trethi yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, gan ganolbwyntio ar ddatblygu cysylltiadau a chael dadl sy'n seiliedig ar ffeithiau.

4. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i sicrhau bod polisi trethi'r DU, a phenderfyniadau ynglŷn â'r trethi datganoledig cyfatebol, yn cael eu deall a'u rheoli'n effeithiol yng Nghymru.

5. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill, yn ogystal â phartneriaid rhyngwladol, er mwyn rhannu ymarfer da, cydweithio i fynd i'r afael â heriau cyffredin, a hybu egwyddorion ein polisi trethi a'n dull strategol o ddatblygu polisi trethi.

## Rhagor o wybodaeth a manylion cysylltu

**Mae gwybodaeth am drethi Cymru i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru: beta.llyw.cymru/trethi-cymru**

**Gallwch gysylltu â ni drwy gyfrif twitter Trysorlys Cymru @TrysorlysCymru: https://twitter.com/trysorlyscymru ac @WelshTreasury: https://twitter.com/WelshTreasury neu drwy ebost: TrysorlysCymru@llyw.cymru WelshTreasury@gov.wales**



© Hawlfraint y Goron 2019 WG37209

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Cynllun gwaith polisi trethi 2019** |
| **DYDDIAD** | **27 Chwefror 2019** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

Heddiw rwy'n cyhoeddi cynllun gwaith polisi trethi 2019, gan amlinellu'r rhaglen ymchwil, adolygiadau a gweithgareddau eraill y bydd Llywodraeth Cymru yn ei dilyn yn ystod y flwyddyn.

Mae'r cynllun gwaith yn adeiladu ar yr hyn rydym wedi'i ddysgu hyd yn hyn, ac mae'n unol â'r egwyddorion a amlinellwyd yn Fframwaith Polisi Trethi Llywodraeth Cymru. Yn fwyaf arbennig, mae'n rhan o'n dull agored a chynhwysol o ddatblygu polisi trethi.

Mae'r materion y rhoddir sylw iddynt yn cael eu grwpio dan dri phrif bennawd:

A. Datblygu polisi trethi sy'n codi refeniw i gyllido gwasanaethau cyhoeddus mor deg ag sy'n bosibl, yn gyson â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru – gan gynnwys ein cynlluniau hwy i adeiladu sylfaen drethu Cymru.

B. Adeiladu agwedd fwy effeithiol a chydgysylltiedig at drethi ar draws y trethi Cymreig presennol ac ar draws y dirwedd drethi ehangach – gan gynnwys opsiynau i wella trefniadau rhannu data a chryfhau'r sail dystiolaeth fel sail i benderfyniadau trethi.

C. Ymgysylltu, cyfathrebu a meithrin gallu – gan gynnwys ein nod o ymgysylltu'n ehangach â dinasyddion.

Rwy'n croesawu cyfraniadau tuag at unrhyw agwedd ar y cynllun gwaith. Wrth i'r rhaglen fynd yn ei blaen, byddaf yn chwilio am gyfleoedd i drafod rhai o'r materion mwy strategol yn y Cynulliad, er mwyn galluogi'r Aelodau i gyfrannu at yr agenda bwysig hon.

Byddaf yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r hyn y byddwn wedi'i ddysgu yn yr hydref.

Mae cynllun gwaith polisi trethi 2019 ar gael yma:

https://beta.llyw.cymru/cynllun-gwaith-polisi-trethi-2019

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel/Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

**Cyfeirnod:** IG19003/AC090/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 4 Mawrth 2019

Annwyl Llŷr

## Cynllun pensiwn y gwasanaeth sifil - cynnydd yng nghyfraniadau'r cyflogwr 2019.

Roedd ein Hamcangyfrif ar gyfer 2019-20 yn cyfeirio at gynnydd disgwyliedig yng nghyfraniadau pensiwn y cyflogwr oherwydd gwerthusiad Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, oedd yn cael ei gynnal ar y pryd. Yn ein llythyr dyddiedig y 10fed o Ionawr 2019, fe wnaethom addo rhoi diweddariad i chi am ganlyniad y gwerthusiad hwn unwaith y byddai'r sefyllfa'n gliriach.

Yr hyn a ddisgwyliem oedd cynnydd cyfartalog o oddeutu 7%, fyddai'n cynyddu costau i Swyddfa Archwilio Cymru o £750,000. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor fis Tachwedd y llynedd, eglurodd Steve O'Donoghue, ein Cyfarwyddwr Cyllid,[1] ein dull cynllunio ariannol ac na allai cynnydd o'r fath, heb rybudd cynnar, gael ei gynnwys. Fe wnaethom esbonio i'r Pwyllgor mai'r dewisiadau fyddai gennym fyddai naill ai dod yn ôl at y Pwyllgor gyda chynnig i gynyddu ein galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru, neu geisio trosglwyddo'r cynnydd ymlaen drwy ein taliadau ffioedd, ac os felly byddai angen inni ddod yn ôl at y Pwyllgor i gytuno ar gynllun ffioedd diwygiedig yn ogystal ag Amcangyfrif diwygiedig.

Ar y 7fed o Chwefror 2019, cyhoeddodd Swyddfa'r Cabinet y byddai rhan o'r broses werthuso yn cael ei rhoi heibio dros dro ond y byddai'r gwerthusiad yn cael ei ddefnyddio i bennu cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr. Er mwyn rhoi sicrwydd, maent wedi pennu'r cyfraddau o 1 Ebrill 2019 ar sail canlyniadau drafft y gwerthusiad, a'u bwriad yw diwygio'r rhain o 1 Ebrill 2020, unwaith y bydd y gwerthusiad wedi ei gwblhau. Yn awr, a'r cyfraddau o 1 Ebrill 2019 wedi cael eu

[1] http://record.assembly.wales/Committee/5132#C133912 07/11/2018 09:42:20 / Steve O'Donoghue

cadarnhau, rydym wedi newid ein hamcangyfrif o’r gost i Swyddfa Archwilio Cymru ar ôl y cynnydd i fod yn **£732,000**.

Deallwn y bydd y Trysorlys o bosibl yn darparu peth cyllid ychwanegol i fod o gymorth i gwrdd â’r costau fydd yn syrthio ar gyflogwyr,[2] ond nid ydym wedi derbyn cadarnhad o hyn. Byddai cyllid o’r fath i Gymru yn dod drwy Floc Cymru ac felly byddai angen cyllideb atodol pe baem i dynnu arno. Byddwn yn parhau i drafod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn cael darlun cliriach cyn gynted ag y bo modd.

Caiff Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru wybodaeth ynghylch y sefyllfa yn ei gyfarfod ym mis Mawrth a bydd yn trafod y risgiau cysylltiedig â’r dewisiadau gwahanol sydd ar gael i gau’r bwlch cyllid. Yn amlwg, byddwn hefyd yn ailedrych ar ein cyllideb bresennol i weld a oes lle i gerfio arbedion pellach allan i’w rhoi yn erbyn y costau ychwanegol.

Byddwn yn ysgrifennu eto unwaith y bydd gennym ddarlun cliriach.

Yn gywir

Isobel Everett

**ISOBEL EVERETT**
**Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru**

**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

[2] Pensiynau: Datganiad ysgrifenedig - HCWS1286 “… mae’r Trysorlys yn y broses o ddyrannu cyllid i adrannau i gynorthwyo gyda’r costau hyn”.

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

31 Ionawr 2019

Annwyl Llŷr,

**Cynigion ar gyfer cyllideb flynyddol cyrff a ariennir yn uniongyrchol**

Rwyf yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 14 Ionawr 2019, lle rydych yn datgan y byddech yn croesawu barn y Comisiwn ar y cyfeiriad a'r canllawiau y mae'r Pwyllgor Cyllid yn eu rhoi i gyrff a ariennir yn uniongyrchol wrth lunio amcangyfrifon yn y dyfodol.

Mae'r Comisiwn yn cytuno ag argymhelliad blaenorol y Pwyllgor na ddylai unrhyw gynnydd yng nghyllideb y Comisiwn, ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill o'r Cynulliad hwn, fod yn uwch nag unrhyw newidiadau i Grant Bloc Cymru. Roedd y gyllideb ar gyfer 2019-20, a osodwyd ym mis Tachwedd 2018, yn adlewyrchu'r gofyniad hwn.

Yn ein gohebiaeth â'ch Pwyllgor ym mis Tachwedd 2018, gwnaethom nodi'r canlynol:

*Rydym yn cynnig ein bod yn parhau i fonitro'r cynnydd yng Ngrant Bloc Cymru a sicrhau bod cyllideb* ***weithredol*** *y Comisiwn yn cynnyddu yn unol â Grant Bloc Cymru.*

*Mae'r gyllideb* ***weithredol*** *yn cynnwys gwariant refeniw (gwariant staff a gwariant nad yw'n ymwneud â staff), gwariant cyfalaf a'r gronfa prosiect newydd.*

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6227

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6227

*Nid yw'r gyllideb weithredol yn cynnwys unrhyw symiau nad ydynt yn arian parod (costau cyllid pensiwn (Gwariant a Reolir yn Flynyddol) a dibrisiant), ac unrhyw gostau sy'n gysylltiedig ag Aelod neu gostau etholiadol (gan gynnwys cyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau). Mae'r symiau hyn yn bennaf y tu allan i reolaeth y Comisiwn; gyda chyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn cael ei gosod, yn seiliedig ar gyngor a ddarparwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) a'r Gyllideb Penderfynu yn cael ei gosod gan y Bwrdd Taliadau annibynnol.*

Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn yn mynd drwy'r camau cynnar o lunio ei gyllideb ar gyfer 2020-21, a bydd unwaith eto yn awyddus i ystyried newidiadau i Grant Bloc Cymru. Fodd bynnag, mae sgyrsiau cynnar gyda swyddogion Llywodraeth Cymru wedi nodi efallai na fydd yr amcangyfrifon a ddefnyddiwyd yn ystod 2018, i ganfod y cynnydd posibl yng Ngrant Bloc Cymru, ar gael yn ystod 2019. Bydd angen ymgynghori pellach gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystod 2019 er mwyn canfod amcangyfrif rhesymol arall o'r cynnydd posibl yng Ngrant Bloc Cymru ar gyfer 2020-21.

Felly, mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r Pwyllgor o ran ei asesiad sy'n nodi ***"y bydd cysylltu cyllidebau cyrff a ariennir yn uniongyrchol â'r cynnydd yn y grant bloc yn parhau i fod yn broblemus".***

Os nad yw amcangyfrif o'r newid yng Ngrant Bloc Cymru ar gael, bydd y Comisiwn yn parhau gyda'r dull agored a thryloyw a fabwysiadwyd ar gyfer ei gyllideb yn 2019-20, wrth bennu ei gyllideb ar gyfer 2020-21. Bydd y Comisiwn hefyd yn parhau i ddefnyddio amcanestyniadau chwyddiant (e.e. ffigurau datchwyddydd Trysorlys ei Mawrhydi[1] a gyhoeddwyd) fel pwynt cyfeirio i fesur rhesymoldeb ei gyllideb weithredol.

Yn hanesyddol, mae'r Comisiwn wedi gosod ei gyllideb o amgylch ei nodau strategol, yn seiliedig ar yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei ddyletswyddau statudol, fel y dywedais mewn sesiwn dystiolaeth yn eich Pwyllgor ar 5 Hydref 2017:

---

[1] https://www.gov.uk/government/statistics/gdp-deflators-at-market-prices-and-money-gdp-december-2018-quarterly-national-accounts

*"Our starting position is always the strategic goals of the Assembly, which you'll remember from before: providing outstanding parliamentary support to engage with all the people of Wales and champion the Assembly, and, of course, to use resources wisely. We're also mindful, of course, of the statutory duty of the Commission to provide staff, property and services to do the work that the Assembly has decided it wants to do".*

Os na fydd amcangyfrif rhesymol o'r cynnydd i Grant Bloc Cymru ar gael, credwn y bydd y broses hon yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor y bydd y Comisiwn yn parhau i lunio ei gyllideb mewn ffordd gadarn a thryloyw, gan ddefnyddio data a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi fel pwynt cyfeirio ar gyfer cynnydd yn ei gyllideb **weithredol.** Rydym yn nodi bod y Pwyllgor, ym mis Hydref 2018, wedi croesawu'r newidiadau a wnaed i gyflwyniad ein dogfen gyllideb ar gyfer 2019-20:

**Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf fod y newidiadau yn cyfrannu at dryloywder wrth gyllidebu.**


**Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymagwedd a gymerwyd gan y Prif Weithredwr ers ei phenodiad, ac mae'n arbennig o falch â'r agwedd agored a ddangoswyd gan y Prif Weithredwr a'i pharodrwydd i weithio gyda'r Pwyllgor.**

Mae'r Comisiwn yn ystyriol o'r pwysau a'r toriadau y mae'r sector cyhoeddus ehangach yn eu hwynebu, mae wedi dangos yn gyson ei ymrwymiad i effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a gwerth am arian, ac mae'n sicrhau ei fod yn "defnyddio adnoddau'n ddoeth" fel un o'i amcanion strategol allweddol.

Byddwn bob amser yn ystyried dychwelyd unrhyw danwariant o fewn cyllideb gyffredinol y Comisiwn (fel y gwnaethpwyd gyda thanwariant cyllideb Penderfyniad ym mis Rhagfyr 2018), os byddwn yn dod i'r casgliad na allwn wneud defnydd effeithlon, effeithiol o'r arian sydd ar gael i gyflawni blaenoriaethau'r Comisiwn o fewn y flwyddyn ariannol.

Yn ôl yr arfer, cofiwch roi gwybod os hoffai eich Pwyllgor gael unrhyw wybodaeth bellach.

Yn gywir



Suzy Davies

Copi: Comisiynwyr y Cynulliad, Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Ombudsman Ombwdsmon
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Ein Cyf: NB/MM

Gofynnwch am: Marilyn Morgan
01656 641152

Dyddiad: 4 Chwefror 2019

Marilyn.morgan@ombwdsmon-cymru.org.uk

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Trwy Ebost yn unig**
seneddfinance@assembly.wales

Annwyl Llyr

**Cynigion Cyllideb Flynyddol ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol**

Diolch i chi am eich llythyr ar 14 Ionawr ynghylch y cynigion cyllideb flynyddol ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol. Croesawaf y cyfle i roi fy sylwadau ar y mater pwysig hwn.

Yn gyntaf, gadewch i mi fod yn glir fy mod yn cydnabod ac yn parchu pwysigrwydd rôl y Pwyllgor Cyllid wrth ystyried, craffu, herio a dod i gasgliadau ar gynigion cyllideb y cyrff a ariennir yn uniongyrchol. Mae hyn yn rhoi archwiliad ac arolygiaeth gywir i gynigion wrth gynnal annibyniaeth bwysig y cyrff a ariennir yn uniongyrchol.

Er fy mod yn cydnabod bod y Pwyllgor Cyllid wedi dod i gasgliad yn 2017 y dylid "newidiadau i Amcangyfrifon yr Ombwdsmon aros naill ai'n is neu'n unol â Bloc Cymru", ni ddehonglais hyn yn yr ystyr y dylid fy nghyflwyniad cyllideb adlewyrchu'r newidiadau yn y Bloc Cymru, nac y tybiais y byddai unrhyw gynnydd ar, neu o dan, y cynnydd yn y Bloc Cymru yn cael ei gefnogi'n awtomatig. Cyflwynwyd fy nghyflwyniad cyllideb wreiddiol ar gyfer 2019/20 yn dilyn asesiad angen o'r gwaelod i fyny, ystyriaeth ofalus gan fy Nhîm Rheoli ac archwiliad gan y Panel Ymgynghorol, sy'n cynnwys aelodau annibynnol. Roedd y cynnydd a geisiwyd yn is nag yn y Bloc Cymru.



Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

Rwy'n cydnabod bod cyfyngiadau a phryderon ynghylch ystyried y newidiadau i Floc Cymru o ran ystyried cynigion cyllideb. Un mater yw nad yw'r gwerth terfynol ar gyfer y Bloc Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol gerllaw yn hysbys yn ystod yr adeg y mae'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol yn mynd ati i gyflwyno eu hamcangyfrifon. (Er nad oedd yn ddatrysiad perffaith, am y rheswm hwn, edrychodd fy null ar y newid hysbys yn y Bloc Cymru rhwng y blynyddoedd blaenorol a chyfredol). Mae cyfeiriad at newidiadau tybiedig neu debygol yn y Bloc Cymru ar gyfer y flwyddyn ganlynol yn arwain at ansicrwydd anghynorthwyol, fel y digwyddwyd wrth ystyried

Cynigion cyllideb 2019/20 lle defnyddiwyd cynnydd amcangyfrifedig o 1.6% yn y DEL, er bod y cynnydd gwirioneddol yn TME (sy'n ymddangos yn fesur mwy priodol gan nad yw pwerau treth ddatganoledig yn effeithio arno) yn 6.2%. (Cynyddodd y Cyfanswm Gwariant a Reolir yn Atodlen 6 o'r symudiad cyllideb flynyddol o £18,012,283,000 ar gyfer 2018/19 i £19,131,276,000 ar gyfer 2019/20.)

Ceir cwestiwn dilys hefyd ynglŷn ag a fydd y newidiadau yn y Bloc Cymru gyffredinol bob amser yn berthnasol i bwysau a gofynion y cyrff a ariennir yn uniongyrchol. Tra gall cynnydd yn raddfa, cymhlethdod neu ystod y ddarpariaeth gwasanaeth iechyd (gyda chynnydd cysylltiedig mewn ariannu ar gyfer gwasanaethau iechyd) arwain at fwy o gwynion i'r Ombwdsmon, nid yw'n bosibl mesur yr effaith hon ac ni fydd mwy o wariant ar wasanaethau iechyd yn arwain o reidrwydd at gynnydd cyfatebol mewn cwynion. Wedi dweud hynny, bydd graddfa a helaethder gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn amlwg â chyswllt â llwyth gwaith swyddfa'r Ombwdsmon.

Credaf ei bod yn bwysig ystyried pwrpas a defnydd bwriedig unrhyw fesur. Rwy'n rhagddisgwyl y bydd y Pwyllgor am barhau â'i waith craffu ar gyflwyniadau cyfredol (ar ba bynnag lefel y cynigiwyd) ac y bydd unrhyw fesur felly yn ffon fesur neu'n gymharydd yn hytrach na fformiwla ar gyfer cymeradwyo cyllideb.

Ar y sail honno, tra byddai'n ddefnyddiol derbyn canllawiau gan y Pwyllgor cyn cyflwyno'r amcangyfrifon, yn ymarferol, byddai'r Pwyllgor yn gallu ystyried nifer o ffactor a dangosyddion wrth fynd ati i graffu. Gallai hyn gynnwys dangosyddion pwysau cyllideb (e.e. Chwyddiant CPI, chwyddiant talu, newidiadau ym mhensiwn cyflogwr neu newidiadau mewn cyfraniadau yswiriant gwladol, effaith newid deddfwriaethol, newidiadau yn y llwyth gwaith) a dangosyddion y cyd-destun ariannol (e.e. newidiadau i Floc Cymru, newidiadau i ariannu ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus). Yn ychwanegol, efallai y bydd pwysau tymor byr penodol, megis costau ymateb i heriau cyfreithiol, a allai gael eu hadlewyrchu mewn cyflwyniadau amcangyfrifon, ac y byddai'r Pwyllgor yn dymuno eu hystyried.



Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

Nodaf o ystyriaeth y Pwyllgor o'm cyflwyniad amcangyfrifon ar gyfer 2019/20 eu bod yn bryderus ynglŷn ag edrych yn ôl ar newidiadau'r gorffennol (boed hynny'n newidiadau yn y Bloc Cymru rhwng y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol, neu fesurau eraill). Ceir ychydig o fesurau sy'n edrych ymlaen at gynnydd mewn tâl a phris y dyfodol, ac yn y cyd-destun hwnnw, mae'n debyg y byddai'n werth ystyried cyfeirio at y datchwyddydd cynnyrch domestig gros a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi, sy'n rhoi amcangyfrifon o dueddiadau'r dyfodol yn hytrach nag edrych yn ôl ar newidiadau'r gorffennol.

O ganlyniad, rwy'n awgrymu y dylid gofyn i gyrff a ariennir yn gyhoeddus i gyflwyno eu hamcangyfrifon fel y maent yn gwneud ar hyn o bryd, gan esbonio'r newidiadau a phwysau penodol, ond y dylent hefyd gynnwys cymaryddion gyda CPI, chwyddiant tâl a'r datchwyddydd cynnyrch domestig gros i gefnogi gwaith craffu'r Pwyllgor ar y cyflwyniadau.

Rwy'n gobeithio bod fy sylwadau'n ddefnyddiol a byddaf yn hapus i wneud rhagor o sylwadau neu ddarparu eglurhad os dymunwch.

Yn gywir



**Nick Bennett**
Ombwdsmon



Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru Bae
Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

11 Chwefror 2019

Annwyl Llyr,

Diolch am eich llythyr ynghylch proses cyllideb flynyddol cyrff a ariennir yn uniongyrchol.

Mae cyni wedi bod yn nodwedd amlwg o fewn gwasanaethau cyhoeddus ers 2010, ac mewn cyfnod o leihau cyllidebau mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn ceisio darparu'r wybodaeth orau bosibl i gyrff cyhoeddus er mwyn helpu i gynllunio'n ariannol yn y dyfodol. Fel y gwyddoch, mae ansicrwydd penodol ar y foment ynghylch y lefel o gyllid sydd ar gael ar gyfer gwariant cyhoeddus yng Nghymru dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, er mai dim ond cynlluniau refeniw ar gyfer 2019-20 roedd modd i ni eu cyhoeddi yn y Gyllideb ddiweddar, ynghyd â'r cynlluniau cyfalaf ar gyfer y ddwy flynedd nesaf, roeddem yn cydnabod bod angen cefnogi cynlluniau ariannol y tu hwnt i'r blynyddoedd hyn. Mae adroddiad y Prif Economegydd, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft, yn dadansoddi amcangyfrifon cyllidol tymor canolig i helpu i gynllunio gwariant ar adnoddau yng Nghymru yn y dyfodol.

Rydych yn cydnabod nad oes gan Lywodraeth Cymru ran yn y broses o bennu cyllideb cyrff a ariennir yn uniongyrchol. Er hynny, rwy'n cydnabod bod angen i bob corff cyhoeddus yng Nghymru fod yn cynllunio ar sail rhagdybiaethau cynllunio realistig a synhwyrol. Yn unol â hyn, ac er mwyn helpu gyda gwaith craffu'r Pwyllgor, byddwn yn hapus i ysgrifennu atoch cyn toriad yr haf i roi gwybodaeth am yr amrywiol ffactorau y gellid eu defnyddio i lunio cynlluniau ar gyfer y gyllideb yn y dyfodol megis y canllawiau diweddaraf am gylchoedd cyflog y sector cyhoeddus, rhagolygon datchwyddydd cynnyrch domestig gros, rhagolygon trethi datganoledig a'n hasesiad gorau posibl o'r lefel gyffredinol o gyllid sydd ar gael ar gyfer y dyfodol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fodd bynnag, fel rydych yn nodi yn eich llythyr, mae nifer o ffactorau allanol y tu hwnt i'n rheolaeth a allai effeithio ar lefel gyffredinol yr adnoddau a fydd ar gael. O ganlyniad, bydd unrhyw ganllawiau a ddarperir ond yn gallu cynnwys ein hasesiad gorau posibl ar yr adeg benodol honno, a bydd, wrth gwrs, yn agored i ddiwygiadau. Er hynny, hyderaf y bydd hwn yn ddefnyddiol o ran cynllunio'r gyllideb.

Yn gywir,



**Rebecca Evans Ac/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel/Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd  CF99 1NA

Annwyl Llyr

**Cyfeirnod:** AC087/MP/SD
**Dyddiad cyhoeddi:** 22 Chwefror 2019

## Cynigion cyllidebau blynyddol cyrff a ariennir yn uniongyrchol

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 14 Ionawr 2019 yn gofyn am farn ynghylch arweiniad i gyrff a ariennir yn uniongyrchol ar gyfer ffurfio eu hamcangyfrifon blynyddol.

Fel yr oeddech yn dweud yn eich llythyr, mae gwneud cysylltiad rhwng cyllidebau cyrff a ariennir yn uniongyrchol â newid ym mloc Cymru yn anodd am amrywiol resymau. Ar wahân i wahaniaethau mewn dehongliad a phroblemau amseru, sy'n codi o benderfyniadau cyllido Llywodraeth y DU, mae datblygu trethi Cymru yn lleihau rhywfaint ar ddefnyddioldeb newidiadau yn y bloc fel mesur o'r hyn sy'n fforddiadwy. Yn fwy sylfaenol, fodd bynnag, nid wyf yn meddwl mai dull rhif cyfeirio o'r fath yw'r ffordd orau yn gysyniadol o sicrhau bod cymeradwyo gwariant yn briodol, gan ei fod yn golygu nad yw gwerth y cynigion gwariant yn cael ei ystyried yn ddigonol.

Credaf y byddai'n well, wrth ystyried amcangyfrifon, pe bai'r sylw'n cael ei roi yn bennaf i'r gweithgareddau arfaethedig a chostau amcangyfrifedig y gweithgareddau arfaethedig hynny. Dylid edrych yn fanwl ar yr amcangyfrif er mwyn gweld a oes esboniad credadwy ar gost amcangyfrifedig y gweithgareddau a gynlluniwyd am y flwyddyn a'r buddion a fwriedir, ynghyd â'r modd y mae'r sefydliad yn sicrhau cynilion ac arbedion yn ei ddull o weithio. Dylai hyn gynnwys newidiadau y cynigir eu gwneud yn y gweithgaredd i gwrdd â newidiadau yn y galw. Dylai canolbwyntio ar yr amcangyfrif ar hyd y llinellau hynny fod o gymorth i sicrhau mai dim ond gwariant buddiol ac angenrheidiol sy'n cael ei gymeradwyo.

Rwyf yn cydnabod, fodd bynnag, y byddai'n fanteisiol i ryw raddau i'r Pwyllgor gael pwynt cyfeirio, megis mesur chwyddiant perthnasol, er mwyn cael dangosydd

cychwynnol o reolaeth costau. Ond byddwn yn pwysleisio nad wyf yn meddwl y byddai canolbwyntio ar bwynt cyfeirio o'r fath yn arwain at drylwyredd gwirioneddol wrth asesu cynigion gwariant.

Mae'r rhan fwyaf o wariant cyrff a ariennir yn uniongyrchol ar staffio - ac felly bydd pwysau cyflogau a phensiynau yn cael dylanwad sylweddol - ond mae'r gwariant hefyd, o reidrwydd, yn cynnwys symiau sylweddol ar eitemau eraill, megis llety a thechnoleg gwybodaeth. Am hynny, byddai mesur bras o chwyddiant, ond un sy'n cynnwys gwasanaethau'r llywodraeth, yn ymddangos yn briodol. Efallai mai mesur darbodus felly fyddai rhagolygon datchwyddo'r GDP (gweler https://www.gov.uk/government/collections/gdp-deflators-at-market-prices-and-money-gdp).

Ffigurau'r Deyrnas Unedig yw ffigurau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR), ac nid ydynt yn perthyn yn benodol i swm y cyllid sydd ar gael yng Nghymru. Gellid dadlau bod cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru, fel y'u heglurir yn y gyllideb derfynol ym mis Rhagfyr bob blwyddyn, ac yn enwedig y newid yn Nherfynau'r Gwariant Adrannol o ran Refeniw a Chyfalaf (RDEL a CDEL), yn fwy perthnasol o ran barnu pa mor fforddiadwy yw cynigion yng Nghymru. Y cynnydd yn RDEL a CDEL, a eglurwyd yng nghyllideb 2019-20, yn ei grynswth yw 4.8% (4.5% a 6.9% yn y drefn honno). Fodd bynnag, yn fy marn i, efallai y bydd yr amser, erbyn y bydd y ffigurau wedi'u cadarnhau ar gael, yn gwneud y mesur hwnnw braidd yn anymarferol, ac mae hefyd yn rhy gul, gan nad yw gweithgareddau cyrff a ariennir yn uniongyrchol yn cydredeg yn glos â gweithgareddau Llywodraeth Cymru. Mae'n annhebygol, er enghraifft, y bydd gofyn i weithgarwch archwilio Swyddfa Archwilio Cymru amrywio mewn modd sy'n cyfateb yn union i gyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn wir yn ystod cyfnodau o gynnydd yng ngwariant Llywodraeth Cymru ac mewn cyfnodau o lymder yn ogystal.

Dylwn bwysleisio hefyd fod yna berygl mewn ceisio cywirdeb manwl annilys mewn perthynas â ffigurau cyfeirio. Fel yr esboniwyd uchod, credaf ei bod yn bwysicach sicrhau bod gwariant arfaethedig yn mynd ar weithgareddau sydd o wir werth, yn hytrach na sicrhau ei fod yn cydymffurfio â phatrwm ehangach.

Fel cyd-destun, efallai y byddai o gymorth pe bawn yn disgrifio'r dull o gynhyrchu'r amcangyfrif yr wyf yn ei baratoi ac yn ei gyflwyno ar y cyd gyda Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru. Mater o "adeiladu i fyny o'r gwaelod" yw hwn yn ei hanfod, h.y. dechrau gyda'r adnoddau sydd eu hangen i ymgymryd â rhaglenni gwaith yr Archwilydd Cyffredinol am y flwyddyn, ynghyd â chostau rhedeg Swyddfa Archwilio Cymru, a hefyd ariannu unrhyw fentrau newydd, a hyn yn cael ei addasu gan bwysau cost amcangyfrifedig a'r posibilrwydd o wneud arbedion a chynilion. Wrth gwrs, rydym yn ystyried ein Hamcangyfrif blynyddol yng nghyd-destun ein Cynllun Ariannol Tymor Canol a'r pwysau cyllido ehangach sy'n wynebu'r gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Bwrdd yn herio'r rheolwyr i gyfiawnhau, fesul achos, unrhyw gynyddiadau arfaethedig yn yr amcangyfrif drafft ac, wrth gwrs, mae hefyd yn cadw mewn cof y peryglon i'w enw da sy'n gysylltiedig â'n cyllid a

lefelau ein ffioedd. Rydym hefyd yn gweld ein hymgynghoriad blynyddol ar gyfraddau ffioedd fel cydran hanfodol o ddarparu her allanol a sicrwydd hefyd bod Swyddfa Archwilio Cymru ei hun yn gweithredu mewn dull cost-effeithiol. Credaf y gellir gweld rhinweddau’r dull hwn oddi wrth y ffaith fod Swyddfa Archwilio Cymru, ers 2013-14, wedi lleihau ei gwariant gweithredu ei hun o 14% mewn termau real.

Ar y cyfan, fy marn i yw mai’r peth gorau i’w wneud wrth ystyried gwariant yw canolbwyntio ar y cyfiawnhad dros eitemau’r gwariant arfaethedig - y gwerth y maent yn ei gynnig am arian. Credaf y byddai’n briodol i hyn fod yng ngoleuni ond heb ei gaethiwo gan ystyriaeth atodol o bwysau chwyddiant a chyd-destun y duedd yng nghyllideb Llywodraeth Cymru.

Gobeithio bod y sylwadau uchod o gymorth. Byddwn yn hapus i ymhelaethu pe bai'r Pwyllgor yn dymuno.



Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Llyr Gruffydd AM
Chair of the Finance Committee
National Assembly for Wales

21 February 2019

Dear Llyr

## Cumulative Impact Assessment briefing for Committees

The Commission was pleased to provide evidence to the Joint meeting of the Finance, Children and Young People and Equality, Local Government and Communities Committees in November as part of the scrutiny of the Welsh Government's budget of 2018-19

Our evidence centred on the extent to which equality considerations had been built into the budget setting process and we provided advice on our recent work to develop a Cumulative Impact Assessment model of public spending decisions. The model enables Governments to analyse the cumulative impact of their spending decisions on certain groups with protected characteristics in order for them to take decisions to mitigate against unequal outcomes. We worked with Landman Economics on this work and since the evidence session we published our report - The cumulative impact on living standards of public spending changes, which includes evidence on the impact of Welsh Government's public spending decisions.

We were pleased to see the series of recommendations in the Finance Committee's including:

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.
The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.
Bloc 1, Cainc D, Adeiladau Llywodraeth, Heol Santes Agnes, Caerdydd, CF14 4YJ
Block 1, Spur D, Government Buildings, St Agnes Road, Cardiff, CF14 4YJ
**Ffôn/Tel:** 02920 447 710 | **E-bost/Email:** wales@equalityhumanrights.com

www.equalityhumanrights.com

- the Welsh Government should consider the Cumulative Impact Assessment approach recommended by the Equality and Human Rights Commission and;
- that Welsh Government provide an update on the outcome of its review of the new Integrated Assessment approach.

We are keen to further support the Committees in taking forward these recommendations and advise on the scrutiny of future Welsh Government budgets. To this end we are continuing to work on a research project to analyse how effectively the current Welsh Government Integrated Impact Assessment model builds in equality considerations. We believe the outcome of this analysis will be useful for drive improvements on how the Welsh Government considers equality outcomes as part of its decision making on budgets and support scrutiny by the National Assembly.

We are pleased to offer a briefing session to you and your Committee Members and staff on the Cumulative Impact Assessment work and the review of the Integrated Impact Assessment. This would take place on or around 14 March.

If this is something that you would be interested please come back to me and my team will be happy to liaise with the Clerks teams to organise.

Yours sincerely



**Ruth Coombs**
Head of Wales

cc: Lynne Neagle AM, Chair of Children, Young People and Educations Committee
John Griffiths AM, Chair of Equality, Local Government and Communities Committee

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

Bloc 1, Cainc D, Adeiladau Llywodraeth, Heol Santes Agnes, Caerdydd, CF14 4YJ

Block 1, Spur D, Government Buildings, St Agnes Road, Cardiff, CF14 4YJ

**Ffôn/Tel:** 02920 447 710 | **E-bost/Email:** wales@equalityhumanrights.com

www.equalityhumanrights.com